

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Wener**, 19eg Mehefin, 2020, a gynhaliwyd drwy 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.15 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
 Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
 Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Michael Strain,
 Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
 Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Ifor Owen
 Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

96. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod ar ei newydd-wedd.

Estynnodd gydymdeilad â'r Cynghorydd Michael Strain a'r teulu yn y brofedigaeth ddaeth i'w rhan o golli Mam.

Dymunodd yn dda i Robin Williams, gŵr Y Cynghorydd Glenys Williams, a gafodd ddamwain yn ystod yn ystod yr wythnos ddwy ddiwethaf.

Tynnodd sylw fod Mrs. Jinnie Jones, Bodriala, Penygroeslon, wedi dathlu ei chanfed penblwydd ar 7fed Mehefin, 2020, a dymunwyd yn dda iddi. Penderfynwyd fod y Clarc i brynu blodau iddi fel anrheg gan y Cyngor.

97. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni ddatganwyd buddiant personol mewn unrhyw eitem

98. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd y cofnodion y Cyngor 9fed Mawrth, 2020. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys E. Williams.

99. GWEITHREDIADAU A GYMERWYD YN YSTOD Y CYFNOD CLO OHERWYDD Y CORONAFEIRWS

Cyflwynwyd nodiadau ar y gweithrediadau a gymerwyd yn ystod y cyfnod clo oherwydd y pandemig COVID-19.

Penderfynwyd derbyn y penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfnod clo.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Carys H. Evans ac eiliwyd gan Y Cynghorydd David Brunelli.

100. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn:

- (a) Cais C20/0383/32/LL - Dymchwel annedd presennol ac adeiladu annedd deulawr newydd yn ei le yn cynnwys modurdy 2 ddrws – Olgra, Penygroeslon.
- (b) Cais C20/0434/32/DT - Anecs arfaethedig i annedd bresennol - Fron Grin, Llaniestyn

- (c) Cais C20/0446/32/DT – agor mynedfa gerbydol newydd i'r briffordd - Efail Glandwr, Sarn
- (ch) Cais C20/0465/32/DT – codi modurdy yn Graig Las, Sarn Mellteyrn.

Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau.

101. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Tynnwyd sylw at gyflwr difrifol y ffordd o Bwll Maen, Penygroeslon am Graig Ewig a **phenderfynwyd** tynnu sylw'r Adran Ffyrdd a gofyn am iddynt roi sylw brys iddi.

Yn y cyswilt hwn, **cyflwynwyd** ymateb y Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd, i gwynion anfonwyd i'w sylw yn ystod mis Chwefror, 2020 (oherwydd y cyfnod clo nid oedd yn bosibl adrodd yn ôl i'r Cyngor ynghynt). (Copi o'r atebiad ynghlwm wrth y cofnodion – A1).

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

Materion eraill a godwyd o dan y pennawd yma oedd:

- a) Adroddodd y Cyngorydd Michael Strain ei fod wedi dod i'w sylw nad oedd y stripyn tir ger yr afon yn cael ei barbio mwyach ac ei fod yn gwneud y pentref yn fler.

Penderfynwyd gofyn i Mr. J.A. Pozzi yr Ymgymewr barbio, dorri'r tyfiant pan yn gwneud y Comin a'r Comin Bach o hyn allan a nodwyd fod y Cyngor yn barod i dalu am awr o waith ychwanegol iddo.

- b) Adroddodd y Cyngorydd Michael Strain ymhellach fod Ms. Beti Hughes, 2 Bryn Llan, Bryncroes, wedi ymgymryd ag edrych ar ôl Ffynnon Fair yn wirfoddol ac awgrymodd y dylid anfon gair o ddiolch iddi ar ran y Cyngor.

Penderfynwyd gweithredu'n unol a'r awgrymiad.

- c) Adroddodd Y Cyngorydd Elin Hughes fod AHNE am dalu am ddifa y planhigyn Llysiau'r Dail ("Japanese knotweed") sydd yn tyfu yn yr ardal. Gall y planhigyn yma fod yn broblem enfawr gan y mae'n ymledu a difetha ffyrdd ac adeiladau. Gwelir y planhigyn yn tyfu dros y ffordd ag Ysgol Bryncroes, yr allt i lawr am bentref Sarn Mellteyrn ac hefyd wrth ymyl Llety Llyfant, Bryncroes. Gofynnai'r Cyngorydd Elin Hughes a oedd gan unrhyw aelod wybodaeth bellach lle mae'r planhigyn yma yn tyfu ac iddynt roi gwybodaeth iddi.

Deallir fod AHNE yn cysylltu gyda'r tîrfeddiannwyr a Chyngor Gwynedd ynglyn a hyn, felly nid oedd angen i'r Cyngor hwn weithredu mewn unrhyw fodd.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

102. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

103. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Un Llais Cymru	£155.00 (siec 200699)
Y Clarc	£372.75 (siec 200697)
HMRC	£ 93.00 (siec 200698)

104. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

Cyflwynwyd

- (a) Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol – copi ynghlwm wrth y cofnodion. "A2".
Nodwyd nad oedd unrhyw fater yn codi o'r cyfrifon.
- (b) Y ffurflen flynyddol sydd i'w hanfon i'r Archwilyr Allanol – copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen.
- (c) Mantolen ariannol y Cyngor hyd 31ain Mawrth, 2020 – copi ynghlwm wrth y cofnodion. "A3".
- (ch)Manylion y taliadau/derbyniadau am y flwyddyn 2019/20 – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

Penderfynwyd

- (1) Derbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol.
- (2) Derbyn y ffurflen flynyddol fel y'i cyflwynwyd i'r Cyngor a nodi fod cwestiynau 1-8 ar 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan1) – yn 'Do' a cwestiwn rhif 9 yn 'amh.' Yna tudalen 4 "Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2) – atebiad i gwestiwn 1 a 2 yn 'Do.'
- (3) Awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen ar ran y Cyngor fel cofnod cywir o'r cyfrifon.
- (4) Derbyn y fantolen ariannol a manylion o'r taliadau/derbyniadau.

105. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**

Nodi y bydd ceisiadau am gyfraniadau ariannol i'w trafod yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor.

106. **CYFARFOD NESAF A'R CYFARFOD BLYNYDDOL**

Penderfynwyd fod y Cyfarfod Blynyddol a'r cyfarfod arferol o'r Cyngor i'w gynnal drwy gyfrwng 'zoom' ar Nos Lun, 13eg Gorffennaf, 2020 am 7.30 y.h.

107. **LLINELLAU TELEFFON**

Cyflwynwyd cŵyn gan Y Cynghorydd Gwenan Griffith am y wifrau teleffon sydd yn hogian i lawr oddi ar y polion yn ardal Neigwl, Botwnnog ac oherwydd hyn mae'n effeithio yn andwyol ar y gwasanaeth teleffon a'r rhyngrwyd.

Tynnodd Y Cynghorydd David Brunelli sylw fod y wifrau yn hogian i lawr oddi ar y polion yn ardal Trefaes Fawr, Botwnnog.

Hefyd dywedodd Y Cynghorydd Glenys Williams fod rhai o'r trigolion o'i hamgylch yn derbyn y rhyngrwyd drwy ffibr ond nad oedd ei chartref hi wedi ei dderbyn.

Penderfynwyd anfon at BT yn tynnu eu sylw at yr uchod ac yn gofyn am gael adfer y sefyllfa mor fuan a bo modd o gofio ardal mor wledig sydd yng nghymuned Botwnnog a'r gwasanaethau yn brin. Fod copi o'r llythyr i'w anfon at Liz Saville Roberts, yr Aelod Seneddol.

108. **GAIR O DDIOLCH**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clarc am ei gwaith yn ystod y cyfnod clo – gwaith a fu a chryn sialens iddo ar lawer tro. Eiliodd Y Cyngorydd Glenys Williams.

NODIADAU O'R MATERION A DRAFODWYD YN YSTOD

Y CYFNOD CLO OHERWYDD Y CORONAFEIRWS

I. APEL GAN GYNGOR BUAN TUAG AT BRYNU OFFER PPE

Ar 29ain Mawrth, 2020, derbyniwyd e-bost gan Glarc Cyngor Buan yn hysbysu fod Dr. Arfon Williams o Feddygfa Nefyn wedi cael ei apwyntio fel “Area Co-ordinator” i'r ardal fyddai yn cynnwys Arfon/Llyn ac Eifionydd i ddelio gyda'r argyfwng Coronafeirws. 'Roedd angen masgiau arbennig ar gyfer y gweithwyr allweddol er eu diogelu rhag y feirws ac 'roeddynt yn costio oddeutu £10/£15 yr un a rhagwelai'r Meddyg y byddai angen tua 1,000 ohonynt. (Nodwyd fod Cyngor Buan am gyfrannu £1,000).

Oherwydd y cyfyngiadau anfonwyd llythyr allan at bob aelod yn nodi sylwadau oedd wedi cael eu derbyn gan Gyngorau eraill i Apêl Cyngor Buan, a holi a oedd y Cyngor hwn yn barod i gyfrannu.

Derbyniwyd ymateb cymysg gan yr aelodau y mwyafrif eisiau cyfrannu £1,000, eraill yn ei gweld yn anodd sut y gellid cyfrannu ond cysidro cyfrannu at Gyfeillion Bryn Beryl at gael defnyddiau PPE. Yn wyneb yr atebion a'r mwyafrif o blaid cyfrannu £1,000 gwnaeth y Cadeirydd benderfyniad, ar ran y Cyngor, i anfon y swm yma i Dr. A.Williams at brynu offer PPE i ardaloedd Arfon/Llyn ac Eifionydd.

Yn wyneb y rhwystredigaeth i gynnal cyfarfodydd oherwydd y clo gofynnodd y Clarc am farn Un Llais Cymru er diogelu'r Cyngor fod y gweithrediad a wnaed i gyfrannu at yr uchod yn uno a'r canllawiau a noder yr atebiad (yn Saesneg):

“Dyma be ddywedodd cyfreithwyr NALC ynglyn a gwario arian ym Mis Mawrth a mis Ebrill (tan 21 Ebrill)

*“We are expecting government guidance on holding meetings remotely. In the meantime, if local councils decide to not hold meetings and take decisions by e-mail or other remote methods NALC feels it is likely that afterwards if there were a challenge that the courts will accept that exceptional times called for exceptional measures. **In the absence of government guidance, we would suggest for now only taking decisions remotely for truly urgent issues. In this case, local councils should evidence their decision making as best they can, for example by asking councillors to confirm their votes by e-mail to the Clerk to keep as a record of the decision.**”*

Noder anfonwyd gwybodaeth fod y rhodd wedi ei anfon at Dr. Arfon Williams at bob aelod ar 7fed Ebrill, 2020.

2. BARBIO TIROEDD Y CYNGOR

Adroddwyd i'r aelodau ar **7fed Ebrill, 2020**, fod dau dendr am farbio tiroedd y Cyngor, wedi eu derbyn - un drwy e-bost a'r llall drwy law. Agorodd y Clarc y ddau dendr ar 6ed Ebrill mewn cysylltiad â'r Cadeirydd ar y ffôn— y tendr dderbyniwyd trwy law agorwyd yn gyntaf ac yna darllenwyd cynnwys y tendr dderbyniwyd drwy e-bost.

Wrth gymharu'r ddau bris 'roedd un pris yn llai am farbio Comin Bryncroes, ond 'roedd y pris arall dros oll o'r gwaith yn sylweddol is. Yn wyeb hynn defnyddiodd

y Cadeirydd ei hawliau i dderbyn y pris isaf ar ran y Cyngor. Anfonwyd i hysbysu'r ymgeisydd llwyddiannus fod ei dendr wedi ei dderbyn a byddai'r Clarc mewn cysylltiad ag ef pan fyddai mwy o wybodaeth o phryd y gellid gwneud y gwaith. Anfonwyd hefyd lythyr at yr ymgymwrwr arall yn dioch iddo am ei ddiddordeb.

Isod gweler fanylion y tendr dderbyniwyd o eiddo J.A. Pozzi, Ger Llwyn, Rhydyclafdy:

1. Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw) ; y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2020, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £510 + TAW.**
2. Barbio Comin Bryncroes yn unig (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) am gyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2020); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £900 + TAW.**
3. Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£15.00 yr awr + TAW.**

3. CEISIADAU CYNLLUNIO

Oherwydd y cyfyngiadau ac angen penderfyniad/talu o fewn cyfnod penodol gweithredwyd haliwau mis Awst sef:

ynghlyn a cheisiadau cynllunio, trafod gyda'r Cadeirydd ag aelodau'r Ward berthnasol

ac yna lle bo angen talu biliau mewn cysylltiad a'r Cadeirydd.

Biliau wedi eu talu drwy awdurdod y Cadeirydd:

Cwmni Yswiriant Zurich (yswiriant yn dod i ben 1af Mai, 2020) **£ 708.17 (siec 200695)**

Ty Doctor, Apel Coronfeirws (gweler l uchod) **£1,000.00(siec200696)**

(Noder – oherwydd y cyfyngiadau awdurdod y Cadeirydd i'r Clarc ofyn i ddau o'r aelodau a hawl arwyddo i arwyddo deg siec ar yr amod fod cyfeirnod o'r taliadau a rhifau'r sieciau yn cael eu hadrodd i'r Cyngor).

Ceisiadau Cynllunio gyda 21 niwrnod i gyflwyno sylwadau:

Cais C20/0258/32/DT – dymchwel porth presennol a chodi parth mwy yn ei le yn Nolafon, Botwnnog. **Cefnogi**

C20/0353/32/LL Sied amaethyddol at ddefnydd cyffredinol uwchben iard warthog presennol - Nanhoron Home Farm, Nanhoron **Cefnogi.**